UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

www.ucac.cymru

# Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Iona A. Davies

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): UCAC

e-bost/rhif ffôn: iona@ucac.cymru

Eich cyfeiriad: Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **16 Mehefin 2023** i:

Is-adran Cymraeg 2050
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: Cymraeg2050@llyw.cymru

## Cwestiynau o’r ddogfen ‘Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg’

**Cwestiwn 1** – Ydych chi’n cytuno y dylid cynnwys mewn Bil ddarpariaeth ynghylch y targed cenedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

*Rydym yn croesawu gweledigaeth, uchelgais a nod hirdymor y Bil o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg ac yn teimlo fod cynnwys y nod yn y Bil yn mynd i roi statws pendant i’r targed. Fodd bynnag, rhaid cadw mewn cof nad yw gosod y targed o fewn y Bil yn mynd i ddatrys pob problem. Cam cyntaf mewn proses fydd gosod y targed. Y camau nesaf yn y broses, sef y gweithredu, sydd yn mynd i wneud gwahaniaeth. Yn hynny o beth, rydym yn croesawu’r hyn a nodir ym mharagraff 25 ynghylch ‘arweiniad clir, cynllunio bwriadus a gweithredu pwrpasol’ a bydd yn bwysig bod hyn yn cael sylw manwl.

*Rydym yn croesawu’r cyfeiriad at gynyddu nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg fel un o’r camau tuag at gyflawni’r targed. (paragraff 3), ond hefyd am bwysleisio’r pwysigrwydd o gael y diffiniad o ‘ysgol cyfrwng Cymraeg’ yn gywir.

* Mae’n bwysig hefyd fod gennym fesur dibynadwy, er mwyn barnu a ydym wedi cyrraedd y targed. Noder bod peth amheuaeth a yw’r cyfrifiad yn mynd i barhau ar ôl 2031. Rhaid cofio hefyd mai mesur goddrychol yw’r cyfrifiad ac na fydd y cyfrifiad yn ei ffurf bresennol yn mesur lefel y Gymraeg. Ni fydd modd mesur a oes miliwn wedi cyrraedd B2 fel isafswm. Nodwn hefyd mai dim ond bob 10 mlynedd y bydd gennym ffigyrau ‘awdurdodol’. Sut, felly, y bydd modd monitro cynnydd, gan ddathlu cynnydd neu ymateb i unrhyw lithriad yn ôl yr angen?

* Cydnabyddir, wrth osod y targed, fod rôl allweddol gan addysg i’w chwarae, er mwyn cyrraedd y targed. Ni ellir pwysleisio gormod pa mor bwysig yw sicrhau bod camau’n cael eu cymryd i dyfu’r gweithlu at y pwrpas hwnnw. Ni fydd modd cyflawni’r targed heb sicrhau gweithlu digonol a hynny o fewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ogystal ag yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg.

*****Wrth gydnabod y rhan allweddol sydd gan addysg i’w chwarae er mwyn gwireddu’r targed, rhaid cofio pa mor bwysig yw cyfathrebu â’r rhanddeiliaid ar bob cam o’r daith – yn benaethiaid, athrawon, rhieni a disgyblion. Rhaid sicrhau bod pawb ‘ar y siwrnai’ gyda’i gilydd ac yn teimlo’n rhan o’r siwrnai honno.

**Cwestiwn 2** – Ydych chi’n credu y dylai fod rôl bendant gan awdurdodau lleol i weithio tuag at y deilliant sy’n gyfystyr â lefel B2 erbyn 2050? Ac os felly, beth ddylai’r rôl honno fod?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| *Rydym yn croesawu rôl awdurdodau lleol a'r ddyletswydd fydd yn cael ei rhoi arnynt i weithio tuag at y deilliant sy'n gyfystyr â lefel B2 erbyn 2050.<br>*Mae gan awdurdodau lleol wybodaeth berthnasol a phwysig ynghylch y gweithlu a niferoedd disgyblion a nhw sy'n llunio'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), felly mae ond yn naturiol eu bod yn cael y ddyletswydd uchod.<br>*Er mwyn sicrhau hyn, bydd angen i bob awdurdod lleol fod yn gwbl ymwybodol o'r gofynion ac yn meddu ar y feddylfryd gywir a'r dyheadau priodol o ran hyrwyddo'r Gymraeg. Nid yr un yw ymrwymiad awdurdodau lleol at y Gymraeg ar hyn o bryd.<br>*Bydd angen i'r awdurdodau fod yn gwbl glir beth yw'r disgwyliadau a beth yw eu cyfrifoldebau.<br>*Mae'n bwysig hefyd bod awdurdodau lleol yn hyrwyddo'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, yn manteisio ar bob cyfle i ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg, yn cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth ac yn monitro unrhyw dargedau sydd wedi eu nodi mewn cynlluniau penodol.<br>*Un o fanteision rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol yw eu bod mewn safle i sicrhau cysondeb ar draws yr awdurdod, gan gynnig cymorth a chefnogaeth gyson a chadarn lle bo angen. Fodd bynnag, mae angen mwy na chysondeb ar draws awdurdodau unigol, yn hytrach, mae angen cysondeb ar lefel genedlaethol.<br>* Mae gan awdurdodau lleol (ac yn enwedig adrannau Addysg) rôl hefyd i arwain drwy esiampl, gan ddefnyddio cymaint â phosibl o'r Gymraeg eu hunain mewn gweinyddiaeth ayb a sicrhau bod eu gweithlu yn mynd ar hyd yr un continwwm ieithyddol â gweithlu ysgolion<br>*Mae'n bwysig hefyd fod awdurdodau lleol yn cymryd y cyfrifoldeb o ddatblygu darpariaeth Gymraeg ar gyfer disgyblion o oedran cyn-ysgol (gofalwyr plant a chylchoedd chwarae ayb) a hefyd yn sicrhau bod ganddynt ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer myfyrwyr ôl-16<br>*Mae'n bwysig bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ar bob cam yn eu haddysg, gan gynnwys mewn colegau addysg bellach ac mewn prifysgolion a phob man sy'n cynnig darpariaeth i ddysgwyr wedi iddynt adael addysg statudol)<br>*Mae angen bod yn glir ynghylch lefel B2 – a ddisgwylir lefel B2 ym mhob un o'r sgiliau (gwrando, darllen, ysgrifennu, siarad)?<br>*Mae'n bwysig hefyd nodi mai isafswm yw'r lefel B2. Nid ydym eisiau sefyllfa lle derbynnir safon B2 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac nid ydym am i rieni deimlo bod eu plant yn mynd i fod yn gwbl rhugl eu Cymraeg wrth fynychu ysgolion cyfrwng Saesneg. |

**Cwestiwn 3** –Ydych chi'n credu y dylai fod rôl bendant gan Weinidogion Cymru i weithio tuag at y deilliant sy'n gyfystyr â lefel B2 erbyn 2050? Ac os felly, beth ddylai'r rôl honno fod ?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| *Bydd yn bwysig bod Gweinidogion Cymru yn cynnig arweiniad pendant, gan sicrhau bod y nod yn uchelgeisiol, heriol a realistig, gyda thargedau penodol yn cael eu gosod i Gymru'n gyffredinol ac i siroedd unigol. O gofio pwysigrwydd |

| |
|---|
| 'arweiniad clir a chynllunio bwriadus' (paragraff 25), mae'n sicr fod rôl bwysig gan Weinidogion i'w chwarae o ran yr elfennau hyn.<br>*Teimlwn fod rhan gan Weinidogion i'w chwarae drwy ymgynghori gydag arbenigwyr yn y maes, er mwyn bod yn ymwybodol beth sy'n uchelgeisiol ond hefyd yn realistig.<br>*O ran cynllunio, teimlwn fod rôl iddynt gynllunio'n strategol a monitro unrhyw gynlluniau sydd eisoes ar waith, er mwyn sicrhau gweithlu digonol ac er mwyn sicrhau bod cynnydd pendant yn cael ei wneud tuag at y targed.<br>*Rydym yn croesawu'r continwwm ieithyddol, ond yn teimlo y dylid pwysleisio mai isafswm yw lefel B2. Bydd angen mwy o fanylion hefyd – ai dim ond ar lafar y disgwylir lefel B2? Er mwyn cyrraedd B2, bydd angen canllawiau pendant a mewnbwn ar ysgolion cyfrwng Saesneg.<br>*Credwn y dylid bod yn glir beth yw'r disgwyliadau ieithyddol ar gyfer pob categori o ysgolion a thrwy wneud hynny bydd cysylltiad rhwng y continwwm a'r categorïau<br>*Credwn hefyd y dylai Gweinidogion ddefnyddio'u pŵer i agor mwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg ac i wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod gweithlu digonol sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg<br>*Rydym hefyd yn teimlo fod gan Weinidogion rôl i'w chwarae o ran dangos esiampl a hyrwyddo'r Gymraeg ar bob cyfle posibl. Oherwydd eu statws a'u safle, mae ganddynt ran bwysig i'w chwarae o ran hyrwyddo'r iaith.<br>***** Nid yn unig dylid pennu isafswm o ran oriau cyswllt, ond dylid cynnig syniadau i ysgolion sut y gallant gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg a defnyddio profiadau ac arbenigedd ysgolion sydd eisoes wedi llwyddo yn y maes hwn |

**Cwestiwn 4** – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig y dylai dyletswydd fod ar Weinidogion Cymru i ddatgan y continwwm sgiliau Cymraeg?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| *Rydym yn croesawu'r continwwm ac yn credu y dylai gael ei hyrwyddo yn rhywbeth cadarnhaol ar gyfer pob un o ddinasyddion Cymru. Byddai creu continwwm o'r fath yn rhoi 'dealltwriaeth gyffredin' ar draws Cymru a byddai rhoi sail cyfreithiol i'r continwwm yn sicrhau cadernid y continwwm.<br>*Rydym yn croesawu'r ffaith y bydd diffiniadau CFER yn rhai 'cynhwysfawr, cydlynol a thryloyw' (paragraff 35) a hefyd y bydd modd defnyddio'r continwwm ieithyddol i bennu beth sydd ei angen er mwyn gwneud cynnydd o ran y Gymraeg.<br>* Os mai'r cyfrifiad fydd ffynhonnell data o ran siaradwyr Cymraeg (a bwrw bod y cyfrifiad yn parhau i fodoli), oni ddylid cyfeirio at y continwwm yn y cyfrifiad h.y bod cwestiwn yn y cyfrifiad a fydd yn nodi lefel sgiliau Cymraeg unigolion.<br>*Byddai bodolaeth continwwm hefyd o gymorth wrth benodi ar gyfer swyddi ac wrth ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg a'r sawl sy'n ymwneud â byd addysg.<br>*Mae'n rhaid gwneud rhywbeth ar fyrder, er mwyn sicrhau bod gennym y gweithle digonol, er mwyn gallu sicrhau bod pob un o'n disgyblion yn mynd ar daith gadarnhaol ar hyd y continwwm hwn. |

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 5** – Ydych chi’n cytuno y dylid creu cyfundrefn statudol ar gyfer categoreiddio ysgolion a gynhelir yn ôl cyfrwng iaith?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| *Rydym o’r farn fod angen cyfundrefn statudol ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl cyfrwng iaith, ond wedi dweud hynny, yn teimlo bod angen edrych o’r newydd ar y categorïau. Er bod y ddogfen hon yn cyfeirio at ymgynghoriad pellach o ran manylion y categorïau, eto i gyd teimlwn ei bod yn bwysig nodi yma pa mor allweddol bwysig yw diffiniadau’r categorïau.<br>*Wrth greu cyfundrefn gategorïau, mae’n bwysig bod y gyfundrefn honno wedi’i chreu i sicrhau statws gadarnach i’r iaith ac i ddatblygu statws y Gymraeg ac nad yw’n esgus dan unrhyw amgylchiadau dros lastwreiddio’r ddarpariaeth. Dylai pob categori fod yn uchelgeisiol. Mae peth pryder bod rhai o’r ysgolion 2A (pob disgybl yn astudio o leiaf 80% o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg) o dan yr hen drefn wedi newid i fod yn ysgolion categori 3 (60% o’r disgyblion yn astudio o leiaf 70% o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg) a hefyd bod rhai ysgolion ‘dwyieithog’ bellach yn cael eu categoreiddio fel ysgolion cyfrwng Cymraeg.<br>*Wrth lunio cyfundrefn gategorïau, dylid ei sefydlu yn y fath fodd, fel bod ysgolion yn cael eu gwobrwyo am symud ar hyd y continwwm a chynyddu eu defnydd o’r iaith Gymraeg neu am gadarnhau a mireinio eu defnydd o’r iaith (yn achos ysgolion penodol Gymraeg). Nodir yn y cyflwyniad i’r adran sy’n ymwneud â chategorïau ieithyddol y bydd hyn yn clymu gyda chynigion o ran ‘camau i ysgogi awdurdodau lleol ac ysgolion i symud ysgolion i gategorïau ieithyddol uwch dros amser’. Tybed a fyddai sicrhau cymhellion, cefnogaeth briodol a therfynau amser penodol yn sicrhau bod ysgolion yn symud ymlaen ac yn symud ynghynt ar hyd y continwwm hwn? Wrth ystyried ‘cefnogaeth’, gallai hyn gwmpasu hyfforddiant priodol, cyllid ychwanegol, adnoddau defnyddiol, mentoriaid ayb. |

**Cwestiwn 6** – Ydych chi’n cytuno y dylid rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu disgrifiadau’r categorïau mewn rheoliadau?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| *Rydym yn cytuno â’r gosodiad uchod, ond fel y nodwyd uchod, mae’n hollbwysig bod y disgrifiadau yn rhai priodol ac yn cadarnhau’r Gymraeg ym mhob achos.<br>*Wrth osod y cyfrifoldebau a’r dyletswyddau hyn ar Weinidogion Cymru, golyga fod ganddynt ran fawr i’w chwarae tuag at lwyddiant y bil a thuag at gynyddu nifer y |

siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn briodol ac yn iawn cyhyd ag y bo'r Gweinidogion mewn grym yn rhannu egwyddorion a dyheadau'r Bil.
*Mae gennym bryder nad yw union ddisgrifiadau'r categorïau yn rhan o'r ymgynghoriad, gan fod y mater hwn yn allweddol. Edrychwn ymlaen fodd bynnag at weld ymgynghoriad pellach ar y categorïau hyn ac at y cyfle o gael mynegi ein barn yn eu cylch bryd hynny.

**Cwestiwn 7** – Beth yw eich barn am gynnwys isafswm o ran amser a ddarperir yn Gymraeg? Beth yw eich barn am effeithiau isafswm o'r fath ar ysgolion, dysgwyr a staff? A ydych yn rhagweld unrhyw effeithiau eraill?

**Sylwadau ategol**

*Ni fydd unigolion yn datblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus heb gael y cyfle i ymarfer y Gymraeg a chael mynediad at y Gymraeg, felly mae gosod isafswm i'w groesawu. Oni bai fod hyn yn digwydd, mae pryder y bydd rhai ysgolion yn nodi diffyg staff cymwys fel 'esgus' dros beidio â chynyddu darpariaeth y Gymraeg. Mae cael staff digonol yn allweddol ar gyfer dwyn y maen i'r wal ac mae'n hollbwysig bod staff ym mhob sector yn teimlo eu bod yn rhan o'r fenter gyffrous hon o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050
*Os pennir isafswm, bydd angen bod yn glir beth yw natur y 'cyswllt'. Ai gwersi yn unig neu a yw'r 'oriau cyswllt' i gynnwys gweithgareddau allgyrsiol hefyd? Mae'n bwysig bod ysgolion cyfrwng Saesneg yn gorfod darparu digon o oriau cyswllt i sicrhau bod y dysgwyr yn datblygu'n siaradwyr hyderus. Ni ddylai ysgolion cyfrwng Saesneg fod mewn sefyllfa lle y byddant yn medru cynnig arlwy tipyn mwy eang ac amrywiol o bynciau nag ysgolion cyfrwng Cymraeg, gan na fydd gofyn iddynt gynnig cymaint o oriau cyswllt o ran y Gymraeg. Dylai nifer y gwersi Cymraeg fod yr un fath mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg. Dylai'r isafswm a nodir gael ei fonitro gan awdurdodau lleol a Gweinidogion y Llywodraeth.

**Cwestiwn 8** – Beth yw eich barn am y cynigion ym mharagraffau 51 i 56 ynghylch gosod ysgolion mewn categori ieithyddol a rôl gymeradwyo yr awdurdod lleol yn y broses?

**Sylwadau ategol**

*Rydym yn cytuno gyda'r cynnig hwn, ond mae'n rhaid sicrhau bod y diffiniadau yn rhai clir a chadarn, fel bod yr ysgolion a'r awdurdodau lleol yn cytuno â'i gilydd.
*Cyfeirir at unffurfedd ar lefel sirol ym mharagraff 52, ond oni ddylai'r unffurfedd fodoli ar lefel genedlaethol. Yn sicr, byddai rhoi rôl gymeradwyo i'r awdurdod lleol yn gam tuag at unffurfedd. Y gobaith yw y byddai'r ysgol a'r awdurdod lleol yn dod i gytundeb ynghylch y categori. Yr hyn sy'n hollbwysig er mwyn sicrhau unffurfedd a thegwch yw bod y meini prawf yn ddigon penodol a phendant.
* Mae'n allweddol hefyd fod meini prawf pendant ar waith o ran beth a olygir wrth ddarparu pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid sicrhau bod y pwnc yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, bod yr arholiadau yn cael eu sefyll yn y Gymraeg, mai Cymraeg yw iaith y dosbarth a bod yr adborth i'r dysgwyr yn y

| |
|---|
| Gymraeg. Mae'n bwysig hefyd bod yn glir ynghylch y safon a ddisgwylir. Mae'r papur gwyn yn cyfeirio at siaradwyr 'hyderus'.<br>*Rydym yn croesawu'r llinell atebolrwydd glir a gynigir a bod gan ysgolion, awdurdodau lleol a Gweinidogion rolau penodol. Mae'n bwysig bod pob un o'r rhanddeiliaid yn gweithio'n ddyfal tuag at gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. |

**Cwestiwn 9** – Ydych chi'n cytuno gyda'r egwyddor y dylai pob ysgol gynyddu ei darpariaeth Gymraeg dros amser?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| *Rydym yn cytuno'n gryf iawn â'r egwyddor hon. Er y bydd rhai ysgolion eisoes yn cynnig 100% o'u darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, mae lle i'r ysgolion hynny gynnal a chadarnhau'r sefyllfa bresennol. Mae lle bob amser i wella safonau, cynnig mwy o arlwy allgyrsiol a datblygu cyfleoedd.<br>*Mae rhai ysgolion a sefydlwyd yn ysgolion penodol Gymraeg yn dal i gynnig rhai pynciau drwy gyfrwng y Saesneg – mae lle i'r rheiny ehangu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.<br>* I'r ysgolion cyfrwng Saesneg, rydym yn gobeithio gweld cynnydd a datblygiad cyflym o ran y ddarpariaeth, er mwyn gallu cyrraedd y nod clodwiw sydd wedi ei osod.<br>*Er yn canmol yr egwyddor y cyfeirir ati uchod, rydym braidd yn bryderus o'r cymal 'dros amser'. A ddylid bod yn fwy penodol?<br>*Yn yr un modd, rydym yn poeni at y frawddeg ganlynol 'Bydd cyflymder y daith tuag at fwy o ddarpariaeth Gymraeg yn gysylltiedig â nifer o ffactorau lleol'. Rydym am wneud yn siŵr bod pawb yn mynd ati'n ddiymdroi i ddatblygu'r ddarpariaeth i'r graddau mwyaf posibl. |

**Cwestiwn 10** – Beth yw eich barn am y cynigion ym mharagraffau 57 i 60 ynghylch y broses o gynyddu darpariaeth Gymraeg ysgolion?

| |
|---|
| *Rydym yn cytuno â'r egwyddor ym mharagraff 57 y dylai ysgolion gynyddu eu darpariaeth 'dros amser'. Teimlir, fodd bynnag, fod angen mwy o bendantrwydd yn nhermau terfyn amser. A ddylid gosod targedau i ysgolion i'w cyrraedd o fewn blwyddyn? A ddylid disgwyl i ysgol symud o un categori i gategori arall o fewn x o flynyddoedd? Mae'r canllawiau a nodir ym mharagraff 60 yn ddefnyddiol i ysgolion, ond tybed a fyddai modd cynnwys dwy restr – y naill fel sydd eisoes yn y ddogfen yn cyfeirio at wersi a'r llall yn cyfeirio at weithgareddau y tu hwnt i'r ystafelloedd dosbarth e.e. gweithgareddau ysgol gyfan, clybiau, cyfleoedd allgyrsiol.<br>*Pwy fydd yn monitro'r CGCA? Deellir y bydd y Gweinidogion yn pennu targedau sirol, yr awdurdod yn paratoi CGCA a fydd yn nodi sut mae'r awdurdod am weld cynnydd mewn darpariaeth Gymraeg ar draws ei ardal, ond pwy fydd yn monitro hyn? |

| |
|---|
| *Bydd angen cydweithio agos rhwng yr awdurdodau a'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg a bydd angen cadw llygad manwl ar statws/cyflwr y Gymraeg o fewn y cymunedau. Mae'n bwysig bod yn rhagweithiol wrth ymdrin â'r iaith.<br>*O ran paragraff 60 a'r Cynllun Cyflawni, nid ydym am i ddogfen o'r fath fod yn ddogfen feichus a fydd yn cynyddu llwyth gwaith arweinwyr ysgolion. A fydd y ddogfen hon yn rhan o ddogfen arall e.e. Cynllun Datblygu Ysgol?<br>*****Mae angen sicrhau bod ysgolion yn cydweithio a bod strategaethau llwyddiannus yn cael eu rhannu'n ehangach. Mae'n bwysig cydweithio a rhannu llwyddiannau a heriau a gweithio gyda'n gilydd i gyflawni dyheadau'r Bil. |

**Cwestiwn 11** – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion ym mharagraffau 62 i 64 ynghylch monitro cynnydd ysgolion?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| *Rydym yn cytuno bod gan yr awdurdod rôl monitro, ond dylid sicrhau bod y monitro'n digwydd mewn ffordd gefnogol ac anogol ac nid mewn unrhyw ffordd fygythiol. Gallai'r rôl fonitro honno gael ei gwau i mewn i unrhyw ymweliadau sy'n digwydd ar hyn o bryd.<br>*Nodir ym mharagraff 63 y bydd trafodaethau 'rheolaidd' rhwng yr ysgol a'r awdurdod. Mae'r hyn a nodir braidd yn annelwig – mae'r gair 'disgwylir' o ran ei hun yn annelwig ac nid oes unrhyw sôn beth a olygir wrth 'rheolaidd'.<br>*Dylai'r ddarpariaeth o ran y Gymraeg fod yn rhan o rôl Estyn hefyd ond fel yr uchod, dylid sicrhau fod Estyn hefyd yn dangos cefnogaeth ac anogaeth i athrawon ac nad yw'n fygythiol mewn unrhyw ffordd, ond eto'n cynnig ymyrraeth briodol yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg. |

**Cwestiwn 12** – Beth yw eich barn ynghylch sut ddylai awdurdod lleol benderfynu ai ysgol cyfrwng Cymraeg fyddai ysgol newydd a sefydlir?

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| *Credwn y dylai pob ysgol newydd mewn rhai ardaloedd fod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg , gan adleisio'r hyn a ddywedir ym mharagraff 67 'Ar y llaw arall gellid gosod rhagdybiaeth mai ysgol cyfrwng Cymraeg fyddai unrhyw ysgol newydd mewn ardal benodedig...'<br>*Ni ddylid agor unrhyw ysgol 'cyfrwng Saesneg' yng Nghymru, ond dylid gosod seiliau cadarn o ran ysgolion cyfrwng Cymraeg ym mhob ardal yng Nghymru. Dylid dilyn yr egwyddor o gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg ar bob achlysur.<br>*Dylai pob awdurdod lleol sicrhau bod lle mewn ysgol cyfrwng Cymraeg (gyda gwersi ac iaith weinyddol yr ysgol yn Gymraeg) ar gyfer pob disgybl yng Nghymru, gan ddarparu cludiant am ddim os nad ysgol o'r fath yw'r ysgol agosaf at gartref y disgybl. |

| |
|---|
| *Mae'n bwysig dilyn yr egwyddor o gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg ar bob achlysur. Mae'r her sydd o'n blaenau yn fawr er mwyn cyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg ac mae'n bwysig sicrhau bod yr ysgolion a agorir yn hwyluso'r broses o gyrraedd y nod hwn. Mae cyfathrebu gyda'r holl randdeiliaid hefyd yn bwysig wrth fynd drwy'r broses o agor ysgol a dylid esbonio'n glir beth yw'r disgwyliadau o ran yr iaith Gymraeg. |

**Cwestiwn 13** – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig yn yr adran hon ynghylch rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Cynllun Cenedlaethol statudol ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg (fydd yn gosod cyfeiriad i'r cynlluniau gweithredu lleol statudol)?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| *Rydym yn gweld y rheswm y tu ôl i hwn ac yn cytuno ag ef os bydd yn gosod cyfeiriad priodol i'r cynlluniau gweithredu lleol statudol. Rydym yn poeni y gallai cynllun o'r fath ddatblygu yn ddogfen fiwrocrataidd ac fel y nodwyd eisoes rydym o'r farn mai gweithredu sy'n bwysig.<br>*Rydym o'r farn fod angen sicrhau dilyniant ieithyddol gydol oes a theimlwn y dylai'r Cynllun Cenedlaethol gynnwys darpariaeth o'r sector gofal plant a'r blynyddoedd cynnar hyd at addysg uwch. Mae angen sicrhau bod pob sector yn cydweithio a bod dilyniant pwrpasol o'r naill gyfnod i'r llall.<br>*Teimlwn hefyd fod angen adolygiad amlach nag unwaith bob tymor seneddol. Er mwyn dathlu unrhyw gynnydd a mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg cynnydd, mae'n bwysig adolygu cynllun pwysig fel hwn yn amlach nag unwaith bob tymor seneddol. Mae'n rhaid sicrhau atebolrwydd a byddai hynny'n heriol pe bai newid Llywodraeth. |

**Cwestiwn 14** – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion ym mharagraffau 73 a 74 i bennu targedau cenedlaethol ynghylch y gweithlu addysg a'u cynnwys yn y Cynllun Cenedlaethol?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| *Er mwyn sicrhau llwyddiant y Bil hwn, mae sicrhau gweithlu digonol yn hollbwysig ac mae angen meddwl o ddifrif sut mae modd cael y gweithlu hwn. Mae nifer o syniadau yn y ddogfen 'Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg' ac mae angen sicrhau bod y syniadau hynny i gyd yn cael eu gweithredu, yn ogystal â meddwl am ddulliau eraill o recriwtio a chadw athrawon – beth am edrych o'r newydd ar yr |

| |
|---|
| hyfforddiant ieithyddol a ddarperir i fyfyrwyr ar gyrsiau AGA,  cynnig hyfforddiant iaith i athrawon cymwysiedig<br>*Rydym yn pryderu ein bod ar hyn o bryd ymhell o gyrraedd y targedau. Nodir ym mharagraff 73 'byddai parhau i bennu targedau fel rhan o'r Cynllun Cenedlaethol yn fodd o sicrhau bod bwriad clir gan Weinidogion Cymru i gynyddu nifer yr athrawon'. Rydym yn croesawu'r bwriad hwn, ond un peth yw gosod targedau, mater arall yw sicrhau bod y targedau hynny'n cael eu gwireddu. Mae'n rhaid bod yn rhagweithiol a sicrhau digon o staff o ansawdd sy'n gallu addysgu yn y Gymraeg mewn ysgolion Cymraeg yn ogystal ag athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a fydd yn gallu symud pobl yn eu blaen ar hyd y continwwm ieithyddol. Mae'r mater hwn yn greiddiol i lwyddiant yr uchelgais o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050<br>*Er mwyn cyrraedd y targedau o ran recriwtio a chadw gweithwyr, bydd angen edrych o'r newydd ar amodau gwaith athrawon. Mae angen sicrhau gwell amodau gwaith a thrwy hynny, ddenu mwy o bobl i'r proffesiwn.<br>* Mae yna rai camau y dylid eu cymryd, er mwyn cynyddu'r gweithlu. Dylai unrhyw unigolion sy'n derbyn grant i astudio yng Nghymru orfod ymrwymo i ddysgu am gyfnod penodol yng Nghymru. Bydd yn rhaid buddsoddi dipyn yn ariannol o ran y cyrsiau hyfforddi ac yn yr ymgyrch i ddenu pobl ifanc i'r proffesiwn. |

**Cwestiwn 15** – Ydych chi'n cytuno bod y deilliannau a nodir ym mharagraff 82 yn parhau i gynnig ffocws clir i'r cynllunio cenedlaethol a lleol?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ✓ |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Cytunir â'r pwyslais ar gynyddu nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg – mae pob un o'r deilliannau yn dechrau gyda'r geiriau 'mwy o' neu'r gair 'cynnydd'. Mae hyn yn dangos yn glir i ba gyfeiriad yr ydym yn ceisio teithio. Mae'r deilliannau yn rhai y byddem yn eu cymeradwyo – gweithredu er mwyn cyflawni'r dyheadau hyn sydd yn bwysig yn awr. Fodd bynnag, teimlir bod elfen o amwysedd yng ngeiriad rhai o'r deilliannau – onid oes angen targedau meintiol, mwy penodol? Pam y nodir (Deilliant 4) bod angen 'mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc).  Onid yw pob disgybl yng Nghymru eisoes yn gorfod astudio'r Gymraeg fel pwnc? Mae'n bwysig hefyd fod disgyblion ag ADY yn cael yr union yr un hawliau o ran y Gymraeg ag unrhyw ddisgybl arall (Deilliant 6) |

**Cwestiwn 16** – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i gyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i adolygu eu Cynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCA) ar ôl 5 mlynedd i alinio gydag adroddiad cynnydd 5 mlynedd y Cynllun Cenedlaethol?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Ymddengys fod y cynnig yn un derbyniol, ond rhaid sicrhau hefyd nad oes gormod o amser rhwng un cyfnod adolygu a'r llall. Mae angen system yn ei lle a fyddai'n gallu gwarantu ymateb ar fyrder i unrhyw argyfwng a allai godi. Mae gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i adolygu eu Cynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg ar ôl 5 mlynedd yn ymddangos yn synhwyrol a phriodol, ar yr amod bod modd sicrhau ymyrraeth os cyfyd problem. Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn ymwybodol iawn o'r cyfrifoldeb sydd arnynt i wneud pob dim o fewn eu gallu i gyflawni'r targedau. Mae'n bwysig bod y Llywodraeth yn datblygu system o sicrhau gwell cysondeb ar draws awdurdodau lleol Cymru yn hyn o beth. |

**Cwestiwn 17** – Ydych chi'n cytuno gyda'r egwyddor y dylai targedau y Gymraeg mewn addysg gael eu gosod ar awdurdodau lleol gan Weinidogion Cymru?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| *Gan mai Llywodraeth Cymru sydd wedi gosod y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae hyn yn ymddangos yn rhesymol. Byddai hyn yn sicrhau bod yr awdurdodau lleol yn gorfod cyrraedd rhyw safon benodol a byddai'n sicrhau cysondeb rhwng awdurdodau lleol<br>*Rydym yn croesawu'r cynnig ym mharagraff 80 sy'n nodi y bydd y cyfrifoldeb o gynllunio cynnydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn digwydd ar lefel genedlaethol ac mai Gweinidogion Cymru fydd yn gyfrifol am roi arweiniad ynghylch y mater hwn.<br>*Rydym yn credu y dylid gosod targedau uchelgeisiol ar awdurdodau lleol, ond gan sicrhau'r gefnogaeth a'r adnoddau priodol iddynt wireddu'r targedau hynny. |

**Cwestiwn 18** – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i Weinidogion Cymru gomisiynu adolygiad allanol o gynnwys Cynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCA) drafft pan fo'n briodol?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae tryloywder yn hollbwysig ac os yw'r cynnig uchod yn golygu y bydd mwy o dryloywder, yna rhaid cytuno ag ef. Wrth gomisiynu adolygiad allanol, rhaid sicrhau'r bobl briodol i gynnal yr adolygiad allanol. |

**Cwestiwn 19** – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion i roi dyletswyddau ar awdurdodau lleol i gynllunio eu gweithlu?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| *Mae'n bwysig bod y gwaith hwn yn cael ei wneud ar bob lefel ac mae angen bod yn rhagweithiol iawn yn hyn o beth. Dylid mynd i'r afael yn ddiymdroi â'r prinder sy'n bodoli ar hyn o bryd, ar lefel genedlaethol yn ogystal ag ar lefel awdurdodau lleol.<br>*Mae angen ystyried dulliau o ddenu unigolion i ymuno â'r proffesiwn, yn ogystal â gwneud gwaith i gadw pobl sydd eisoes yn gweithio yn y proffesiwn a rhoi cyfleoedd i'r rheiny loywi eu sgiliau iaith.<br>*Dylid sicrhau bod arian digonol ar gael i sicrhau gweithlu digonol.<br>*Dylid sicrhau bod amodau gwaith athrawon yn gwneud y swydd yn apelgar i bobl ifanc.<br>*Er bod rôl gan awdurdodau lleol i gynllunio eu gweithlu, rhaid cydnabod hefyd eu bod yn gweithio dan gyfyngiadau a'u bod hwy yn ddarostyngedig i'r hyn a ddywed y Llywodraeth |

**Cwestiwn 20** – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion ym mharagraffau 100 i 102 ynghylch cyhoeddi adroddiadau ar weithredu'r Cynlluniau Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCAau) a chynnydd yn erbyn targedau'r Cynllun Cenedlaethol?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Rydym yn cytuno â'r cynnig, ar yr amod fod y wybodaeth a gyhoeddir yn cynnwys manylion dilys a buddiol a bod y broses o gyhoeddi yn amgenach na gorchwyl fiwrocrataidd. Y gobaith yw y bydd y ffaith bod adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn cynyddu atebolrwydd. |

**Cwestiwn 21** – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i roi swyddogaeth i Estyn i gynnal adolygiad chwim a chynnig argymhellion mewn sefyllfaoedd lle mae'n ymddangos bod risg na fydd awdurdod yn gwireddu ei dargedau?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| *Mae'r cynnig yn ymddangos yn un priodol, ond dylid nodi y bydd angen rhoi meini prawf penodol i Estyn. Yn sicr mae angen rhoi cefnogaeth i awdurdodau lleol nad ydynt yn llwyddo i gyrraedd eu targedau am ba reswm bynnag.<br>*Byddai rhoi rôl i Estyn yn cynyddu atebolrwydd. |

**Cwestiwn 22** – Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau eraill ynghylch sut i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cymryd camau rhesymol i weithredu eu Cynlluniau Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCAau)?

| |
|---|
| • Y gobaith yw y bydd awdurdodau lleol yn gweld y budd o weithredu'r CGCAau ac yn mynd ati gyda brwdfrydedd i wneud hynny<br>• Byddai'n fuddiol cyflwyno system lle bo awdurdodau lleol tebyg yn cydweithio ac yn rhannu syniadau. (Gallai hyn fod yn ffordd o ddelio gydag awdurdod lleol sy'n cael heriau ac anawsterau, gan gael awdurdod lleol llwyddiannus i gydweithio gydag awdurdod lleol llai llwyddiannus). Mae'n bwysig rhoi cyfle i awdurdodau lleol rannu arferion a rhannu profiadau gyda'i gilydd. Er y bydd rhai heriau'n wahanol, byddant yn wynebu nifer o heriau tebyg.<br>• Mae angen sicrhau bod gan bob disgybl yng Nghymru yr hawl i addysg cyfrwng Cymraeg ac os nad oes darpariaeth ar gael yn lleol, bod trefniadau ar waith i gludo'r disgybl am ddim i'r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf a hynny o fewn pellter rhesymol.<br>*Mae'n bwysig sicrhau bod pob polisi a strategaeth o fewn awdurdodau lleol yn alinio gyda'r CGCAau a dylid cyfeirio'n rheolaidd at y CGCAau wrth drafod unrhyw bolisi neu strategaeth |

**Cwestiwn 23** – Ydych chi'n credu y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg i rieni a gofalwyr?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Cytuno'n gryf. Mae'n bwysig bod rhieni a gofalwyr yn llwyr ymwybodol o fanteision addysg cyfrwng Cymraeg. Dylid disodli unrhyw fythau gan ffeithiau. Bydd angen darbwyllo rhai awdurdodau lleol eu hunain fod addysg cyfrwng Cymraeg yn fuddiol. Er mwyn cryfhau'r neges, byddai'n syniad cynnwys enghreifftiau o unigolion o bob math o feysydd ac o bob math o gefndiroedd sydd wedi elwa o ddilyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg – mae digon o enghreifftiau'n bodoli. Byddai modd gwneud y gwaith hwn ar lefel genedlaethol, gyda chyfleoedd i ategu'r gwaith cenedlaethol ar lefel sirol, gan gynnwys enghreifftiau lleol. Dylid sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei chyfathrebu yn rheolaidd a chan ddefnyddio |

| |
|---|
| amrywiol gyfryngau. Mae hyrwyddo addysg ddwyieithog a sicrhau bod pawb yn gweld pa mor fanteisiol yw yn hanfodol. Dylid atgoffa pobl mai ychydig iawn o bobl uniaith sydd yn y byd, mae'r rhan fwyaf o ddinasyddion y byd yn siarad o leiaf ddwy iaith. |

**Cwestiwn 24** – Pa gefnogaeth y dylai Weinidogion Cymru ei chynnig o ran hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg?

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| *Mae modd paratoi deunyddiau hyrwyddo (e.e taflenni gwybodaeth, profiadau personol, clipiau fideo, ymweliadau â nosweithiau agored ysgolion cyfrwng Cymraeg) ar lefel genedlaethol, gan ddarparu ffeithiau cadarn a sylwadau sy'n ategu pwysigrwydd addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai'r deunyddiau hyn ar gael wedyn i'r awdurdodau lleol eu defnyddio a'u haddasu yn ôl y gofyn.<br>*Gellid defnyddio enghreifftiau hefyd o gyd-destunau rhyngwladol i ddangos manteision addysg ddwyieithog. Byddai'n bwysig bod y deunyddiau hyn yn cael eu haddasu a'u diweddaru'n rheolaidd.<br>*Dylai'r Gweinidogion ddefnyddio eu pŵer i sicrhau bod digon o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael eu hagor a bod yr ysgolion hynny yn cynnig addysg o'r radd flaenaf – mae ysgolion llwyddiannus yn denu disgyblion.<br>*Sicrhau bod dilyniant ieithyddol ar gael ym mhob ardal a bod modd i ddisgyblion gael eu holl addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>*Sicrhau cyllid digonol i hyrwyddo'r Gymraeg.<br>*Mae angen sicrhau bod y neges ynghylch manteision dwyieithrwydd yn cael ei chyfleu'n effeithiol. Dylid nodi mai eithriad yw'r bobl hynny sydd ond yn meddu ar uniaith. Mae dwyieithrwydd ac amlieithrwydd yn gyffredin yn rhan fwyaf o wledydd y byd. |

**Cwestiwn 25** – Ydych chi'n credu y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo darpariaeth trochi hwyr i rieni, gofalwyr a dysgwyr?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| *Teimlwn fod hyrwyddo darpariaeth o'r fath yn bwysig a dylai gwybodaeth am gynllun o'r fath fod yn rhan o bob pecyn gwybodaeth a gyflwynir i hwyrddyfodiaid. Dylai'r pecyn hefyd gynnwys enghreifftiau o unigolion sydd wedi elwa ar gynllun o'r fath ac wedi llwyddo. Dylai darpariaeth trochi hwyr fod ar gael i bob plentyn lle bynnag y mae ei gartref, beth bynnag yw ei allu.<br>*Dylid pwysleisio'r arbenigedd sydd ar gael yng Nghymru a dathlu'r ffaith fod ein cynlluniau trochi hwyr ymysg y gorau yn y byd. Yn ogystal â rhoi gwybodaeth i rieni am y ddarpariaeth o ran trochi hwyr, dylid cynnwys cyngor i rieni sut y gallant gefnogi unrhyw ddisgyblion sy'n derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg e.e tynnu sylw at lyfrau addas, apiau addas, rhaglenni teledu/cyfrifiadurol ayb. |

| |
|---|
| * Byddai'n braf gweld canolfannau trochi a fyddai'n ganolfannau ar gyfer disgyblion a rhieni e.e gwersi Cymraeg i ddisgyblion yn y dydd a darpariaeth dysgu Cymraeg i oedolion y tu hwnt i oriau ysgol. |

**Cwestiwn 26** – Ydych chi'n credu y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu trochi hwyr i ddysgwyr?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| *Cytuno'n llwyr. Dylai pawb sy'n symud i Gymru gael y cyfle i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Ni ddylid gosod cyfyngiadau ar hyn, fel sydd yn y ddogfen ar hyn o bryd (gweler paragraff 119 'os oes lle mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg i dderbyn disgyblion'), ond dylai fod yn gynnig diamod.<br>*Bydd angen sicrhau cyllid a gweithlu digonol ar gyfer darpariaeth o'r fath. |

**Cwestiwn 27** – Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor y dylai cefnogaeth arbenigol ar gyfer dysgu'r Gymraeg gydol oes, gan gynnwys addysg ysgolion, gael ei chanoli o fewn un sefydliad?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| *Mae'n anodd gwybod heb gael mwy o fanylion. Mae'n syniad sy'n haeddu ystyriaeth. Fodd bynnag, bydd angen sicrhau bod capasiti gan y sefydliad hwn i fod ag arbenigedd ym mhob agwedd ar fyd addysg. Mae 'addysg gydol oes' yn cwmpasu ystod eang.<br>*Mae nifer o agweddau i'w hystyried wrth ystyried hyn. Ar y naill law byddai'n sicrhau cysondeb a gobeithio yn sicrhau na fyddai dyblygu o ran cost ac adnoddau. Byddai'n lle canolog o ran derbyn grantiau neu gyfraniadau tebyg. Byddai'n hwyluso pethau o ran marchnata a hyrwyddo'r gwaith. Byddai'n sicrhau dilyniant. Ar y llaw arall, a fyddai dileu cystadleuaeth a rhoi monopoli i un sefydliad yn peri bod yr un sefydliad a fyddai'n bodoli yn cymryd agwedd ddi-hid?<br>*Byddai angen eglurder hefyd o ran rôl y sefydliad penodedig mewn perthynas â sefydliadau eraill sy'n cefnogi ysgolion ac athrawon. |

**Cwestiwn 28** – Ydych chi'n cytuno y dylai rôl y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gael ei hehangu i ymgymryd â'r swyddogaeth neu oes model arall y dylid ei ystyried?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ✓ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae'n anodd mynegi barn heb wybod beth yw'r model arall a fyddai'n cael ei ystyried. Mae rhai o'r sylwadau ar gyfer Cwestiwn 27 hefyd yn berthnasol ar gyfer y cwestiwn hwn. Nid yw hwn yn gam i'w gymryd ar chwarae bach, ond mae angen ystyried y peth o ddifrif, gan roi sylw i sut fyddai pob elfen yn clymu ynghyd. Mae angen rhoi cynigion ac opsiynau pendant ar y bwrdd, cyn gallu mynegi barn ynghylch y mater hwn.<br>Rhaid cofio mai addysg oedolion yw maes arbenigedd y Ganolfan Dysgu Cymraeg ac mae sawl her yn eu hwynebu yn y maes, gan gynnwys cynyddu nifer yr oedolion sy'n dysgu'r iaith.<br>Os mai'r bwriad yw rhoi'r holl agweddau yn nwylo'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, byddai hyn yn golygu bod y ganolfan yn ehangu ar raddfa fawr, er mwyn gallu cynnwys yr holl gyfrifoldebau. Nid yw gofynion y gwahanol sectorau addysg yr un fath, ac felly byddai angen ystod eang o arbenigedd, er mwyn gallu diwallu'r gofynion a'r cyfrifoldebau a amlinellir uchod. |

**Cwestiwn 29** – Ydych chi'n cytuno gyda'r egwyddor y dylid gwarantu bod yna ddigon o ddarpariaeth dysgu Cymraeg a strwythurau addas mewn lle i gefnogi dysgwyr o bob oed yng Nghymru?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Rydym yn cytuno'n gryf fod angen darpariaeth ddigonol o'r radd flaenaf, strwythurau cadarn yn eu lle a digon o arian ac adnoddau i allu sicrhau darpariaeth a strwythurau o'r fath. Er mwyn cyrraedd yr uchelgais o gael miliwn o siaradwyr hyderus, yna mae'n rhaid bwrw ati i warantu'r ddarpariaeth a'r strwythurau i allu cyflawni hyn. |

## Cwestiynau o'r ddogfen 'Amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg

**Cwestiwn 30** – Ydych chi'n cytuno gyda'n dehongliad ni o'r grwpiau a'r cyrff sy'n cael eu heffeithio gan y newidiadau? A oes grwpiau neu gyrff eraill yn dod o fewn cwmpas y newidiadau ar wahân i'r grwpiau a'r cyrff a nodir yn yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 31** – Ar wahân i'r grwpiau a'r cyrff a nodir yn yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg ar ba grwpiau neu gyrff fyddai'r costau'n disgyn?

**Sylwadau ategol**

Mae'n hollbwysig bod awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn cael arian digonol ar gyfer sicrhau gweithlu ac adnoddau digonol. Mae angen ystyried y bydd ysgolion yn wynebu costau cynyddol wrth iddynt orfod cynyddu/gwella eu darpariaeth o ran y Gymraeg. Mae cyfeiriad at hyn yn y ddogfen, ond mae'n rhaid gwneud yn siŵr bod yr ysgolion yn derbyn yr arian angenrheidiol er mwyn cyflawni'r gwaith. Mae'n bwysig hefyd sicrhau bod cryn swm o arian yn cael ei neilltuo ar gyfer recriwtio ac uwchsgilio'r gweithlu. Ni ellir pwysleisio digon pa mor bwysig yw cael y staff cymwys

**Cwestiwn 32** – Beth yw'r effeithiau eraill (ariannol ac anariannol) sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth arfaethedig nad ydynt wedi'u hamlinellu yn yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg?

**Sylwadau ategol**

Bydd cost ychwanegol (o ran amser) o ddelio gyda chwestiynau, ymholiadau ayb a fydd ynghlwm wrth y newidiadau arfaethedig. Mae'n bwysig hefyd ystyried y gost ychwanegol ar gyfer sicrhau cefnogaeth i ddarpar athrawon wrth iddynt ddilyn cyrsiau hyfforddi, ariannu cyrsiau gloywi iaith a chyrsiau iaith, sicrhau hyfforddiant penodol ar gyfer dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, darparu cyllid digonol ar gyfer darparu gweithgareddau allgyrsiol mewn ysgolion.

**Cwestiwn 33** – A oes unrhyw sylwadau eraill ar yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg?

## Cwestiynau gorfodol

**Cwestiwn 34** – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn y Papur Gwyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl

ddefnyddio’r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Pa effeithiau y byddai’n eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu’r effeithiau cadarnhaol a lliniaru’r effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Os gwireddir yr uchelgais, dylai gael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod pethau yn eu lle er mwyn sicrhau bod y nod uchelgeisiol hon yn cael ei gwireddu. Mae angen sicrhau hefyd bod pobl nid yn unig yn gallu siarad y Gymraeg ond hefyd yn dewis defnyddio’r iaith o ddydd i ddydd. |

**Cwestiwn 35** – Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi’n credu y gallai’r cynigion arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn: cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Yn allweddol i’r nod mae sicrhau gweithlu digonol yn ein hysgolion a fydd yn siarad Cymraeg ac yn frwd dros y Gymraeg. Er mwyn gallu cael y gweithlu hwnnw, mae’n bwysig bod amodau gwaith athrawon yn rhai ffafriol. |

**Cwestiwn 36** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i’r afael â nhw, gallwch ddefnyddio’r blwch isod i wneud hynny:

Yn allweddol i’r broses o feithrin miliwn o siaradwyr Cymraeg yw’r hyn sy’n digwydd i’n disgyblion wedi iddynt adael addysg statudol. Mae yn nifer helaeth yn ein hysgolion sy’n meistroli’r iaith yn yr ysgol ond yna yn mynd i faes gwaith neu i golegau naill ai yn Lloegr neu mewn lleoliadau lle nad oes defnydd o’r Gymraeg (o gwbl) neu ddefnydd prin iawn o’r iaith. Mae’n bwysig bod gan y rhai sy’n meistroli’r iaith y gefnogaeth a’r cyfleoedd i barhau i’w defnyddio. Os ydynt yn dod o gartrefi di-Gymraeg nid ydynt yn dod ar draws y Gymraeg, efallai, wedi iddynt adael yr ysgol.

Mae ôl ofalaeth yn hollbwysig ac mae hyn yn wir i’r sawl sy’n dilyn y cyrsiau sabothol ar gyfer gloywi eu Cymraeg. Mae’n bwysig bod y rheiny’n cael y cyfleoedd i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg wedi iddynt orffen eu cyfnod sabothol.

Er mwyn cynyddu hyder athrawon o fewn ysgolion Cymraeg, tybed a fyddai modd defnyddio cyn-athrawon, athrawon newydd ymddeol i fod yn fentoriaid i’r sawl sy’n teimlo’n ddihyder yn y Gymraeg. Mae gan yr athrawon hyn brofiad helaeth a

chyfoethog ac rwy’n siŵr y gallai newydd-ddyfodiaid i’r proffesiwn elwa o’u harbenigedd.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai’n well gennych i’ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐